Llanrhaeadr Ym Mochnant

# Ysgol Gynradd
# Llanrhaeadr Ym Mochnant




# Prosbectws Ysgol

2023-2024

# Cynnwys

Croeso ..... 4
Cyswllt ..... 5
weduc
Cefndir ..... 6
Staffio (2022 – 2023) ..... 8
Derbyniadau (oed 4+) ..... 10
Cylch Meithrin (oed 3+) ..... 10
Trafnidiaeth ..... 11
Pontio ..... 11
Gwisg ysgol ..... 12
Cit Addysg Gorffeorol ..... 13
Cyfleoedd Cyfartal ..... 14
Plant ag Anabledd ..... 14
Diogelu Plant ..... 14
Amddiffyn Plant ..... 14
Caniatad Cyfryngau ..... 14
Adeilad yr Ysgol a'r ardal tu allan ..... 15
Toiledau ..... 15
Iechyd a Diogelwch ..... 15
Diogelu Data ..... 16
Cau Ysgol ..... 16
Cymorth Cyntaf / Damweiniau ..... 16
Moddion ..... 16
Nyrs Ysgol ..... 16
Y Diwrnod Ysgol ..... 17
Cyflawniadau ..... 19
Llais y Disgybl ..... 20
Cwricwlwm i Gymru ..... 21
Asesu ..... 23

Gwaith Cartref ..... 23
Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) ..... 24
Cymorthydd a Chefnogaeth Llenyddiaeth Emosiynol (ELSA) ..... 25
Yr Iaith Gymraeg ..... 25
Gweithgareddau Allgysriol ..... 26
Ymweliadau Addysgiadol ..... 27
Gwersi Offerynnol ..... 27
Addysg Gorfforol a Chwaraeaon ..... 27
Fframwaith Digidol ..... 28
Presenoldeb ..... 29
Ymddygiad ..... 30
Taliadau ..... 31
Prydiau Ysgol am Ddim ..... 31
Grant Amddifadedd Plant ..... 31
Cymdeithas Rhieni ac Athrawon (CRhA) ..... 32
Cysylltiadau'r Gymuned ..... 33
Gwaith Elusen ..... 33
Cyfryngau Lleol ..... 33
Gwefan Ysgol/ Cyfryngau Cymdeithasol ..... 33
Arolwg ..... 34
Cwynion / Pryder ..... 34
Data Diwedd Cyfnod Allweddol ..... **Error! Bookmark not defined.**
Atodiad 1 – Dyddiadau Tymor 2022-2023 ..... 35
Atodiad 2 – Presenoldeb 2021 -2022 ..... 36
ATODIAD 3: CYTUNDEB CARTREF YSGOL ..... 37

## Croeso

Mae'n bleser rhannu prosbectws 2023/24 Ysgol Gynradd Llanrhaeadr Ym Mochnant gyda chi.

Mae'r ysgol wedi ei adeiladu ar werthoedd cymunedol, uchelgeisiol, creadigrwydd, iechyd, hyder a chydweithio. Mae staff, disgyblion, llywodraethwyr a rhieni, ynghyd, yn gweithio tuag at yr un nod, i ddarparu addysg bleserus yn llawn cyfleoedd ar gyfer ein disgyblion.

Mae'r amgylchedd dysgu yn darparu her briodol i bawb o fewn amgylchedd diogel, cymdeithasol, wrth adeiladu ar safon uchel o ymddygiad.

Ar dyddiad cyhoeddi y ddogfen hon mae'r wybodaeth yn gywir. Byddwn yn hysbysu rhanddeiliaid yr ysgol os oes unrhyw newidiadau. Os hoffech gysylltu, defnyddiwch y wybodaeth isod.

Cofion Cynnes

Miss Sioned Morris<br>
Pennaeth Dros Dro









## Cyswllt

Ysgol Gynradd Llanrhaeadr Ym Mochnant
Llanrhaeadr Ym Mochnant
Ger Croesoswallt,
Powys.
SY10 0LG

Ffôn: 01691 780352

Ebost: office@llanrhaeadr.powys.sch.uk

Gwefan: www.ysgolllanrhaeadr.weebly.com

Twitter: @LlanYMSchool

Grwp Facebook (caeëdig): Ysgol Gynradd Llanrhaeadr ym Mochnant Primary School

Pennaeth Dros Dro: Miss Sioned Morris

Cadeirydd y llywodraethwyr: Mr Lewis Ash

Cyngor Sir Lleol (Cyngor Sir Powys ):
Adran Addysg ac Ysgolion,
Neuadd y Sir,
Llandrindod,
Powys, LD1 5LG

Ffôn: 01597 826422

Ebost: education@powys.gov.uk

## Ap WEDUC

Mae cyfathrebu ysgrifenedig rhwng yr ysgol a rhieni/gofalwyr yn cael ei anfon drwy ein ap WEDUC. Bydd rhieni newydd i'r ysgol yn cael mynediad i'r ap pan fydd disgyblion yn dechrau yn yr ysgol. Esiamplau o wybodaeth sydd yn cael ei anfon arno yw ein cylchlythyron, arolygon rhieni, dyddiadau o ddigwyddiadau a gwybodaeth bwysig. Diolch mawr i'n CRhA sydd yn talu i ni ddefnyddio'r ap.


## Cefndir

Mae Ysgol Gynradd Llanrhaeadr ym Mochnant wedi ei leoli ym mhentref gwledig Llanrhaeadr Ym Mochnant yng Ngogledd Powys sydd o fewn pum milltir i'r ffin â Lloegr. Mae'r ysgol wedi ei amgylchynu a golygfeydd godidog Dyffryn Tanant a mynyddoedd y Berwyn. Mae gan yr ardal gefndir hanesyddol cryf o'r iaith Gymraeg ac mae'r ysgol yng nghalon y gymuned.

Mae'r ysgol yn bodoli yn y pentref ers 1858. Ysgol y Green oedd yr ysgol a ddefnyddiwyd hyd at 1858 cyn i 'Llanrhaeadr Central School' gael ei adeiladu yn ystod y cyfnod Fictorianaidd. Rhoddwyd estyniad ar yr adeilad hwnnw yn ystod y 60au cyn symud lawr i'r adeilad presennol a agorwyd yn 2008.

Mae'r adeilad newydd yma yn un werdd, gan ei bod yn defnyddio system egni biomas a phaneli solar i wresogi'r ysgol. Mae gan yr ysgol iard fawr gydag ardaloedd gwahanol gan gynnwys gardd lysiau a ffrwythau, MUGA (ardal aml ddefnydd ar gyfer chwaraeon), coedwigoedd a buarth tarmac yn ogystal ag ardal tu allan benodedig ar gyfer y Cyfnod Sylfaen. Mae hefyd neuadd fawr wedi ei adeiladu'n bwrpasol a maes parcio preifat.

Cynhelir yr ysgol gan Gyngor Sir Powys sydd yn gwasanaethu y pentref a'r ardal leol. Mae 79 o ddisgyblion ar y llyfrau (Medi 2022). Mae gan yr ysgol ddwy ffrwd; y Gymraeg a'r Saesneg, a'r dosbarthiadau yn cynnwys dau ddosbarth Cyfnod Sylfaen a dau ddosbarth Cyfnod Allweddol 2. Sefydlwyd y Ffrwd Gymraeg yn 1998.



Ysgol y Green



Yr Hen Ysgol



Yr Ysgol Newydd

## Nod yr Ysgol

Ar y cyd gyda'r Cwricwlwm Newydd i Gymru, rydym fel ysgol yn hyrwyddo ein disgyblion i fod yn:

- ***ddysgwyr uchelgeisiol, galluog*** *sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes.*
- ***gyfranwyr mentrus, creadigol*** *sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywydau a'u gwaith.*
- ***dinasyddion egwyddorol, gwybodus*** *sy'n barod i fod yn ddinasyddion Cymru a'r byd.*
- ***unigolion iach, hyderus*** *sy'n barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.*

Ar yr un pryd ein nod ydy gwneud Ysgol Gynradd Llanrhaeadr yn:

- ysgol hapus, groesawgar, diogel gydag awyrgylch gofalgar lle gall blant fwynhau trefn gyfarwydd.

- ysgol lle gall blant fwynhau llwyddiant drwy weithgareddau sydd wedi eu cynllunio yn ofalus ar gyfer anghenion yr unigolyn, wrth ddatblygu diwylliant Cymreig.

- ysgol sydd yn cynorthwyo plant i ymwneud yn dda a'i chyfoedion, teulu a chymuned.

- ysgol sydd yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys ar gyfer datblygiad deallusol, corfforol, emosiynol a lles moesegol yr unigolyn. Ar yr un pryd mae pwyslais mawr ar fedrau sylfaenol a gwybodaeth o lythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol. Credwn ei fod yr un mor bwysig i roi cyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio eu medrau a'u gwybodaeth mewn sefyllfaoedd gwahanol.

- ysgol sydd yn cydweithio gyda'r cartref, gyda'r un meddylfryd, er budd y plentyn.

# Staffio (2023 – 2024)

<table>
<tr><td colspan="6">PENNAETH DROS DRO<br>Miss Sioned Morris<br>Swyddog Diogelu Plant</td></tr>
<tr><td colspan="6">CAU<br>ATHRAWES DDOSBARTH LLUNCAWS (Cymraeg)<br>Mrs Catrin Evans<br>Dirprwy Swyddog Diogelu Plant ALNCO</td></tr>
<tr><td colspan="2">ATHRAWES DDOSBARTH<br>TEGID<br>(Saesneg)<br>Mrs Saran Beachen<br>Cymorth Cyntaf</td><td colspan="2">ATHRAWES DDOSBARTH<br>EFYRNWY<br>(CYMRAEG)<br>Mrs Nia Turner<br>Cymorth Cyntaf</td><td colspan="2">ATHRAWES DDOSBARTH<br>CELYN<br>(SAESNEG)<br>Miss Abi Johns<br>Cymorth Cyntaf</td></tr>
<tr><td colspan="3">CYMHORTHYDD DOSBARTH (LEFEL 2)<br>Mrs Beth Evans ~<br>Cymorth Cyntaf</td><td colspan="3">CYMHORTHYDD DOSBARTH (LEFEL 2)<br>Mrs Catrin Davies<br>Cymorth Cyntaf</td></tr>
<tr><td colspan="3">CYMHORTHYDD DOSBARTH (LEFEL 1)<br>Mrs Christine Evans<br>Cymorth Cyntaf</td><td colspan="3">CYMHORTHYDD DOSBARTH (LEFEL 2)<br>Mrs Gail Owen</td></tr>
<tr><td colspan="3">SWYDDOG GWEINYDDOL<br>Mrs Nerys Evans</td><td colspan="3">CLERC Y LLYWODRAETHWYR<br>Mrs Ann Klages</td></tr>
<tr><td colspan="6">GORUCHWYLIWR CINIO<br>Mrs Cath Russell</td></tr>
<tr><td colspan="6">CLWB BRECWAST ARWEINYDD/CYNORTHWYDD<br>Mrs Wendy C Jones+<br>CLWB BRECWAST ARWEINYDD/CYNORTHWYDD<br>Mrs Christine Evans</td></tr>
<tr><td colspan="6">GLANHAWR MEWN GOFAL<br>Mrs Christine Evans<br>GLANHAWR<br>Miss Janet Peate</td></tr>
<tr><td colspan="6">COGYDD MEWN GOFAL<br>(POWYS)<br>Mrs Wendy C Jones<br>CYNORTHWYDD CEGIN (POWYS)<br>Mrs Llinos Evans</td></tr>
</table>

## Corff Llywodraethol

Mae gan Ysgol Gynradd Llanrhaeadr Ym Mochnant Gorff Llywodraethol cefnogol a rhagweithiol dros ben. Eu rôl yw goruchwylio gweithgareddau yr ysgol, gan sicrhau fod polisiau'r ysgol yn hyrwyddo ethos yr ysgol, gan sicrhau fod addysg o'r ansawdd uchaf ar gyfer pob plentyn.

Mae Rhiant Lywodraethwr yn rhiant i blentyn sydd yn mynychu'r ysgol, ac wedi ei ethol i'r Corff Llywodraethol gan rieni'r ysgol. Mae gan bob rhiant yr hawl i gael eu hethol pan fydd y cyfle yn codi. Hysbysir rhieni pan fydd hyn yn digwydd.

Ynghyd â chyfarfodydd llawn pob hanner tymor mae cyfarfodydd is-bwyllgorau ac ymweliadau monitro yn digwydd. Mae bod yn llywodraethwr yn gyfle gwych i wneud cyfraniad cadarnhaol i fywyd ysgol.

### Corff Llywodraethol 2023 – 2024

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd** | Lewis Ash |
| **Is- Gadeirydd** | Margaret Hart |
| **Pennaeth Dros Dro** | Sioned Morris |
| **Athro Lywodraethwr** | Nia Turner |
| **Llywodraethwr Staff** | Beth Evans |
| **Rhiant Llywodraethwr** | Lewis Ash |
| **Rhiant Lywodraethwr** | Natalie Jones |
| **Rhiant Lywodraethwr** | Dylan Wyn Jones |
| **Llywodraethwr yr Awdurdod Lleol** | Phillip Roberts |
| **Llywodraethwr yr Awdurdod Lleol** | Pen Davies |
| **Llywodraethwr Cyngor y Gymuned** | Sandra Bailey |
| **Clerc y Corff Llywodraethol** | Ann Klages |

## Derbyniadau (oed 4+)

Mae plant yn cael mynychu Ysgol Gynradd Llanrhaeadr yn y mis Medi yn dilyn eu penblwydd yn bedair oed yn unol â pholisi Cyngor Sir Powys.

Ym Mhowys gall plentyn fynychu'r ysgol unai yn llawn amser neu yn rhan amser ar gais gan rieni / gofalwyr, yn ystod Tymor yr Hydref yn dilyn eu penblwydd yn bedair oed, os oes gan yr ysgol yr adnoddau digonol o ran staff, lle ac offer.

Mae cais cynnar (mis Ionawr) yn cael ei wneud ar gyfer plant cyn oed ysgol, gall cais trosglwyddo ysgol ei wneud gan gwblhau cais 'In Year Admission Request'

Am fynediad i'r ysgol a gwybodaeth berthnasol defnyddiwch y cyswllt yma – Powys School Admissions

Croeso i rieni / gofalwyr sydd yn bwriadu anfon eu plentyn i'r ysgol, ymweld â'r ysgol i gael fwy o wybodaeth, ac i weld yr adeilad gallwch gysylltu â'r pennaeth i wneud trefniadau priodol.

## Cylch Meithrin (oed 3+)

Gall blant 2.5 oed fynychu'r Cylch Meithrin sydd wedi ei leoli yn adeilad yr ysgol ond yn cael ei redeg gan y Mudiad meithrin. Mae gan blant 3 oed yr hawl i gyllid o hyd at 10 awr o addysg rhad ac am ddim drwy drefniadau gyda'r Cylch meithrin yn ogystal a chyllid ar gyfer gofal plant i rieni sydd yn gweithio dros 16 awr yr wythnos. Am fwy o wybodaeth gallwch gysylltu â'r cylch 07377842939 neu ebost cylch.llanrhaeadr@yahoo.co.uk

Amseroedd Agor:

| Dydd Llun<br>Monday | Dydd Mawrth<br>Tuesday | Dydd Iau<br>Thursday | Dydd Gwener<br>Friday |
|---|---|---|---|
| 8.45 - 11.15<br>Ariannwyd gan Powys<br>Funded by Powys | 8.45 - 11.15<br>Ariannwyd gan Powys<br>Funded by Powys | 8.45 - 11.15<br>Ariannwyd gan Powys<br>Funded by Powys | 8.45 - 11.15<br>Ariannwyd gan Powys<br>Funded by Powys |
| 11.15 - 3.15<br>Gofal Plant<br>Childcare | 11.15 - 3.15<br>Gofal Plant<br>Childcare | | 11.15 - 3.15<br>Gofal Plant<br>Childcare |

mudiad meithrin
arbenigwyr y blynyddoedd cynnar
Welsh early years specialists

Mae Ti a Fi, sef grŵp mamau a babanod, yn cyfarfod yn neuadd yr ysgol ar fore Gwener am 10.00yb hyd at 11.30yb am £2 y sesiwn.

## Trafnidiaeth

Er mwyn fod yn gymwys ar gyfer trafnidiaeth ysgol Powys, rhaid i ddisgyblion oed ysgol fyw o fewn 2 filltir neu fwy oddi wrth yr ysgol agosaf, wedi ei fesur gan y ffurf byraf o ran cerdded, neu lwybr trafnidiaeth sydd yn bodoli eisioes. Darperir trafnidiaeth am ddim i ddisgyblion ysgol gynradd sydd yn byw o leiaf milltir o'r prif lwybr trafnidiaeth ysgol.

Gall ddisgyblion sydd yn byw o fewn y pellter statudol i gerdded i'r ysgol neu yn byw ger llwybr trafnidiaeth yr ysgol wneud defnydd o seti gwag o dan y cynllun 'Taliad Seti Gwag' am daliad priodol.

Nid yw Datganiad Anghenion Ychwanegol yn rhoi hawl i ddisgybl gael trafnidiaeth i'r ysgol oni bai ei bod yn mynychu adran arbenigol wedi ei gynnal gan yr ysgol ac yn byw y pellter lleiaf o'r ganolfan hwnnw. Fel arall mae'n rhaid i'r disgybl gyrraedd yr un meini prawf â disgyblion sydd heb ddatganiad.

Mae'n rhaid i bob disgybl sydd yn defnyddio trafnidiaeth ysgol ddilyn y rheolau sydd wedi ei nodi ar y ffurflen gais. Mae'r cod diogelwch wedi ei atodi gyda'r ffurflen gais ac fe ddylai gael ei gadw gan rieni / gofalwyr.

Dyma'r cyswllt am gais trafnidiaeth – Trafnidiaeth Ysgol Powys

Mae'n rhaid i bob riant / gofalwr sydd yn dymuno i'w plentyn sydd ym mlwyddyn 5 &6 gerdded i'r ysgol heb oruchwyliaeth rhoi caniatad mewn ysgrifen a'i roi i'r pennaeth.

## Pontio

Mae rhan fwyaf o ddisgyblion blwyddyn 6 yn trosglwyddo drosodd i Ysgol Uwchradd Llanfyllin. Yn ystod y flwyddyn, mae Pennaeth Blwyddyn 7 yn ymweld â'r ysgol i gyfarfod disgyblion blwyddyn 5 a 6 ac i ateb cwestiynau sydd ganddynt. Byddant hefyd yn sgwrsio gyda'r Pennaeth ac athro dosbarth i drafod pob disgybl yn unigol er mwyn sicrhau bod darpariaeth ar gyfer eu hanghenion yn yr ysgol uwchradd.

Yn ystod tymor yr haf, bydd disgyblion blwyddyn 5 a 6 yn ymweld ag Ysgol Uwchradd Llanfyllin ac yn cyfarfod aelodau o staff a thiwtoriaid blwyddyn. Dangosir yr ysgol iddynt fel eu bod yn gyfarwydd gyda'r adeilad, adnoddau a chyfleoedd sydd ar gael iddynt. Maent yn cymryd rhan mewn gwahanol wersi, cael eu cinio a defnyddio'r drafnidiaeth ysgol. Mae hefyd nosweithiau agored.

## Gwisg ysgol

Credwn bod gwisgo gwisg ysgol yn hyrwyddo balchder o berthyn i'r gymuned ysgol. Mae hefyd yn ymarferol ar gyfer yr ysgol. Gofynnwn i ddisgyblion wisgo y wisg a restrir isod:

- Crys chwys glas gyda logo yr ysgol (neu un o ddewis arall glas)
- Crys polo gyda logo yr ysgol (neu un o ddewis arall glas)
- Trowsus plaen, sgert/siorts penglin (glas tywyll, llwyd neu du)
- Sanau neu teits plaen
- Esgidiau tywyll plaen
- Ffrogiau gingham glas

Gall gwisg ysgol (lluniau isod) gael ei archebu o swyddfa'r ysgol. Mae stoc yn cael ei adnewyddu felly mae croeso i chi ddod i mewn i drio nhw o ran maint.

Cedwir prisiau i'r lleiafswm, nid yw'r ysgol yn gwneud elw er mwyn cadw prisiau yn isel. Mae'r CRhA hefyd yn gwerthu rhai ail law am gyfraniad bychan.



Crys chwys



Crys polo



Siaced fleece/cadw glaw



Bag llyfrau



Bag Cit Addysg Gorfforol

# Gwisg Addysg Gorfforol

Mae gennym bolisi ynglŷn â gwisg addysg gorfforol. Gall ddisgyblion wisgo:

- Crys polo gwyn plaen
- Siorts du plaen
- Treinyrs neu pumps ar gyfer disgyblion o dan 7
- Gall gwaelod tracswt neu leggings gael eu gwisgo yn ystod y tywydd oer
- Rhaid i wallt hir gael ei glymu yn nôl. Ni fydd bobbles gwallt yn cael ei darparu ar eu cyfer
- Ni chaniateir gwisgo unrhyw fath o emwaith (mae'n rhaid i glustlysau gael eu tynnu neu eu tapio)





**Os gwelwch yn dda fedrwch chi sicrhau fod enw eich pelntyn ar bob dilledyn.** Ni fydd yr ysgol yn gyfrifol am wisg ysgol coll. Annogir disgyblion i beidio gwisgo gemwaith a cholur, a gwinedd lliw i'r ysgol.

I deuluoedd ar incwm isel, mae grant ar gyfer gwisg ysgol a gwisg addysg gorfforol, defnyddiwch y ddolen yma- Powys Pupil Development Grant Information

## Cyfleoedd Cyfartal

Mae hi'n hanfodol darparu pob disgybl gyda chyfle cyfartal beth bynnag ei oed, gallu, rhyw, tras a chefndir, neu unrhyw rinwedd nodweddiadol sydd o fewn y ddeddf cydraddoldeb 2010. Mae gan yr ysgol bolisi Cyfleoedd Cyfartal a Chynllun Cydraddoldeb. Rydym yn annog pob unigolyn i barchu eraill o fewn a thu allan i gymuned yr ysgol. Ni fydd yr ysgol yn derbyn unrhyw iaith nac ymddygiad gwahaniaethol all niweidio plentyn neu deulu. Byddai digwyddiadau o'r fath yn cael eu rhannu gyda'r awdurdod lleol.

## Plant ag Anabledd

Mae Ysgol Gynradd Llanrhaeadr ym Mochnant wedi ymrwymo i roi mynediad i ddisgyblion ag anabledd, os oes gan yr ysgol a'r Awdurdod Addysg Leol y modd ar gyfer ei anghenion. Mae gan yr ysgol Gynllun Cydraddoldeb a pholisi Hygyrchedd er mwyn sicrhau mynediad i ddisgyblion ag anabledd gymryd rhan yn y cwricwlwm.

## Diogelu Plant

Mae Ysgol Gynradd Llanrhaeadr ym Mochnant wedi ymrwymo i ddiogelu plant ac hyrwyddo lles ein disgyblion, ac fe ddisgwylir i bob aelod o staff a gwirfoddolwr rannu yr ymrwymiad yma. Ein harweinydd diogelu plant yw Miss Sioned Morris, ein dirprwy diogelu plant yw Mrs Catrin Evans, ein llywodraethwr diogelu yw Mr Adam Burgess. Mae'n rhaid i bob ymwelydd ar y safle arwyddo i mewn yn ddigidol wrth y fynedfa a gwisgo bathodyn; mae ein staff yn wyliadwrus, ac mae'r safle wedi ei fonitro yn reolaidd er mwyn sicrhau bod canllawiau amddiffyn plant ac iechyd a diogelwch yn cael eu dilyn. Mae copïau o bolisi Diogelwch ac Amddiffyn Plant ar gael.

## Amddiffyn Plant

Mae hi'n gyfrifoldeb holl oedolion yr ysgol i ofalu am y plant ac i'w diogelu rhag niwed. Mae gennym bolisi Amddiffyn Plant sydd yn rhoi manylion am sut y gweithredir hyn. Os ydym yn teimlo fod plentyn mewn peryg, efallai y bydd rhaid cysylltu â'r Gwasanaeth Plant a Lles Addysgiadol neu'r Gwasanaeth Polisi ynglŷn ag Amddiffyn Plant. Mae copi o'r polisi yma ar gael gan yr ysgol neu ar wefan yr ysgol.

## Caniatad Cyfryngau

O bryd i'w gilydd, byddwn yn cyhoeddi lluniau o'r disgyblion ar gyfer gwahanol ddibenion. Mae gennym ffurflenni caniatâd ar gyfer rhieni / gofalwyr cyn gwneud hyn. **Does dim rhiant i rannu llun o ddisgybl arall ar unrhyw rwydwaith cymdeithasol, dim ond plentyn eu hunain.**

## Adeilad yr Ysgol a'r ardal tu allan

Cafodd yr ysgol ei hagor yn swyddogol yn 2008 gan y Prif Weinidog Rhodri Morgan. Adeiladwyd yr ysgol gyda nifer o nodweddion gwyrdd fel paneli solar, system egni biomss a chynllun casglu dŵr glaw.

Mae gan yr ysgol bedwar dosbarth, dwy swyddfa, ystafell athrawon, ystafell gerdd ac ystafell synhwyraidd, llyfrgell, ystafell Cylch Meithrin, cegin a Neuadd aml ddefnydd.

Ynghyd â'r cyfleusterau o fewn yr adeilad, mae gan yr ysgol iard mawr tarmac ar gyfer y disgyblion lle y gellir chwarae arno drwy'r flwyddyn. Mae yna ardal chwaraeon aml ddefnydd y MUGA lle gall blant chwarae gemau pêl yn ddiogel. Mae yna ardal goedwig a ffrâm ddringo bren. Mae gan yr ysgol ardd lwyddiannus sydd â chynnyrch ffrwythau a llysiau sydd yn cael eu casglu gan blant a gwirfoddolwyr.

Mae gan yr ysgol hefyd fynediad i'r cae pêl droed leol ar gyfer addysg gorfforol a diwrnod mabolgampau.

## Toiledau

Mae gan yr ysgol ddigon o doiledau ar gyfer y disgyblion sydd yn yr adeilad. Mae'r cyfleusterau yn addas ar gyfer oed y plant sydd yn gwneud defnydd ohonynt. Mae toiledau ychwanegol ar gyfer staff ag ymwelwyr, ac hefyd toiledau anabl ar gyfer defnyddwyr anabl. Maent yn cael eu glanhau yn ddyddiol.

## Iechyd a Diogelwch

Rydym yn sicrhau bod y safle yn un diogel gyda amgylchedd ysgogol fel bod ein plant yn gallu ffynnu. Mae gennym raglen sydd yn barhaus er mwyn cofnodi ac adolygu gweithdrefnau mewn ardaloedd penodol. Mae asesiadau risg trwyadl yn cael eu cwblhau ar y safle ac ar gyfer gweithgareddau sydd y tu allan i safle'r ysgol. Mae gan yr ysgol bolisi Iechyd a Diogelwch a rydym yn cynnal archwiliadau cyson am beryglon.

Mae'r ysgol wedi tanysgrifio i'r Gwasanaeth Profion Statudol. Mae'r larwm tân, larwm diogelwch, trydan, offer tu mewn a thu allan yr ysgol yn cael eu profi a'u cynnal yn rheolaidd. Mae driliau tân yn cael eu cynnal bob hanner tymor ac mae canllawiau gadael yr adeilad wedi eu harddangos yn yr adeilad. Mae'r ysgol yn cael ei arolygu yn rheolaidd gan Awdurdod Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru gyda'r asesiad risg yn cael ei adolygu yn flynyddol. Mae gan yr ysgol hefyd system CCTV.

## Diogelu Data

Mae'r ysgol yn cydymffurfio gyda holl ofynion Deddf Diogelu Data ynglŷn â chadw gwybodaeth. Os hoffech fwy o fanylion croeso i chi gysylltu gyda swyddfa'r ysgol.

## Cau Ysgol

Mewn amgylchiadau o ran tywydd drwg neu amgylchiadau sydd yn effeithio ar Iechyd a Diogelwch, bydd yr ysgol yn cael ei orfodi i gau. Bydd rhieni / gofalwyr yn cael eu hysbysu drwy ein ap 'Weduc'. Bydd hefyd gwybodaeth ar ein gwefan yn ogystal â gwefan a chyfryngau cymdeithasol Cyngor Sir Powys.

## Cymorth Cyntaf / Damweiniau

Mae staff yr ysgol yn brofiadol wrth ddelio gyda phlant sydd gyda mân grafiadau ac anafiadau wrth chwarae neu yn ystod gemau. Mae gan yr ysgol hefyd nifer o staff sydd wedi eu hyfforddi mewn cymorth cyntaf. Mae pob damwain yn cael ei gofnodi gan y person sydd wedi delio gyda'r anaf.

Os oes anaf mwy difrifol, bydd y plentyn dan sylw yn cael ei gludo i'r ysbyty neu fe gaiff ambiwlans ei alw, gyda rhieni / gofalwyr yn cael ei hysbysu cyn gynted â phosib. Bydd y cyfrifoldeb wedyn ar rieni / gofalwyr i fod yn gyfrifol am eu plentyn.

## Moddion

Mae'n rhaid cyfathrebu anghenion meddygol plentyn gyda'r ysgol fel bod y ffurflenni cywir yn cael eu llenwi. Mae'r ffurflenni yma ar gael oddi ar wefan yr ysgol neu gan staff yr ysgol. Mae plant sydd ag anadlydd asthma yn cael eu goruchwylio a'u cefnogi wrth weinyddu yr anadlydd eu hunain.

Gall moddion ar gyfer salwch byr gael ei weinyddu gan staff wedi i ffurflen gael ei lenwi gan riant /ofalwr. Os oes angen moddion ar gyfer cyflwr hir dymor, mae'n rhaid cwblhau cynllun gofal ar y cyd gyda staff meddygol proffesiynol.

## Nyrs Ysgol

Mae'r nyrs ysgol yn ymweld â'r ysgol er mwyn mesur a phwyso plant y dosbarth Derbyn ac hefyd i weinyddu brechiad y ffliw. Gall rieni/gofalwyr ddewis dynnu allan o'r ddau. Mae gwybodaeth a ffurflenni perthnasol yn cael eu cyfathrebu o flaen unrhyw ymweliad fel bod gan rieni/gofalwyr ddigon o amser i ddod at benderfyniad. Maent hefyd yn cynorthwyo staff gyda materion meddygol ac yn ymweld â disgyblion blwyddyn 5 a 6 yn ystod tymor yr haf.

# Y Diwrnod Ysgol

| | |
|---|---|
| 8:00 | Clwb Brecwast (£2 y disgybl yn dyddiol) |
| 8:45 | Giatiau'r ysgol yn agor |
| 8:55 | Giatiau'r ysgol yn cau - Cofrestru |
| 9:00 – 10:30 | Gwersi boreuol |
| 10:30-10:45 | Amser chwarae |
| 10:45 – 11:55 | Gwersi boreuol CS |
| 10:45 – 12:10 | Gwersi boreuol CA2 |
| 11:55 – 13:00 | Amser cinio CS |
| 12:10 -13:00 | Amser cinio CA2 |
| 13:00 – 14:00 | Gwersi prynhawn |
| 14:00 – 14:15 | Amser chwarae |
| 14:15 – 15:10 | Gwersi prynhawn |
| 15:15 | Amser mynd adref |
| 15:15 – 16:15 | Clybiau ar ôl ysgol |

## Trefniadau Boreol

Mae disgyblion yn defnyddio'r giatiau ochor i ddod i mewn ag allan o'r adeilad. Agorir y giatiau /drysau am 8.45yb. Ni chaniateir iddynt gael eu gollwng yn yr ysgol cyn hyn. Bydd aelod o staff wrth ddau ddrws yr ysgol, (Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2.) Galluogir hyn i rieni drosglwyddo negeseuon drwy'r aelodau o staff, os oes angen. Defnyddiwch y brif fynedfa os yw'r giatiau wedi cau. Gofynnir i rieni adael eu plentyn wrth y drws ac i beidio a dod i mewn i'r adeilad a'r dosbarthiadau.

Bydd y giatiau yn cau am 8.55yb. Os yw eich plentyn yn hwyr, bydd rhaid i chi ddefnyddio y brif fynedfa ac arwyddo ffurflen yn electronig (Gweler Presenoldeb).

# Trefniadau Diwedd Dydd

Daw'r diwrnod ysgol i ben am 3.15yp. Bydd y plant yn gadael yr adeilad drwy'r giatiau ochr. Bydd y plant sydd yn teithio ar fws i'r ysgol yn cael eu hebrwng at y bysiau gan aelod o staff (gweler Trafnidiaeth). Caniateir i ddisgyblion blwyddyn 5 a 6 gerdded adref eu hunain os oes ganddynt ganiatâd ysgrifenedig gan eu rhieni. Os ydy eich plentyn yn mynd adref gyda person gwahanol (sydd ddim ar y rhestr cyswllt) mae'n rhaid i aelod o staff gael ei hysbysu gennych chi fel **rhiant**. Ni fydd plentyn yn cael gadael yr adeilad heb ganiatâd rhiant. Gellir ei roi mewn ysgrifen os yw am fod yn drefniant rheolaidd.

# Bwyd a Diod

## Amser Cinio

Arlwyo Powys sydd yn gyfrifol am goginio a chynllunio'r prydau bwyd. Mae'r bwyd yn cael ei goginio ar y safle ac yn gweithredu polisi bwyta'n iach. Archebir prydau yn ddyddiol gan ddefnyddio system ddigidol drwy system ParentPay. Mae'r ap /gwefan yma hefyd yn dangos beth mae'r disgybl wedi ei fwyta yn ddyddiol. Mae disgyblion hyd at flwyddyn 3 yn gymwys ar gyfer cinio am ddim. Cost pryd bwyd ar gyfer blynyddoedd 4-6 yw £2.45 y dydd.

Am fwy o wybodaeth defnyddiwch y ddolen yma – Gwybodaeth Prydau Powys

Gall ddisgyblion ddod a phecyn bwyd eu hunain i'r ysgol. Fel Ysgol Iach, fe annogir i ddisgyblion ddod a phecyn bwyd iachus a chytbwys.

## Amser Snac a Diodydd

Gall ddisgyblion ddod a snac i'r ysgol ar gyfer bwyd bore, ond mae'n rhaid iddo fod yn **ffrwyth neu lysieuyn** yn unol â pholisi ysgol iach yr ysgol. Ni chaniateir unrhyw snac arall.

Mae gan yr ysgol ddwy ffynnon ddŵr glân wedi ei leoli yn y Cyfnod Sylfaen a'r Adran Iau. Anogir disgyblion i ddod â photeli dŵr i'r ysgol. Ni chaniateir diodydd ffisiog. Mae plant y Cyfnod Sylfaen yn derbyn llaeth am ddim yn ddyddiol.

## Alergedd a Gofynion Deiatyddol

Fel rhan o'r pecyn croeso gofynnir i chi lenwi sawl ffurflen wahanol. Un ohonynt yw ffurflen alergedd a gofynion deiatyddol eich plentyn. Cedwir y wybodaeth yma ar record ac fe hysbysebir pob aelod arall o staff.

Mae Arlwyo Powys yn paratoi ar gyfer gofynion llysieuwyr, feganiaeth, gluten free, lactose free a.y.b ac fel ysgol rydym yn gwneud ein gorau i gefnogi disgyblion gyda gofynion o'r fath wrth drefnu ymweliadau a digwyddiadau gwahanol.

Cyn unrhyw ymweliad preswyl (Blwyddyn 5 a 6), bydd ffurflen bwrpasol i'w lenwi cyn gwneud unrhyw ymweliad.

## Clwb Brecwast

Mae clwb brecwast yn rhedeg yn ddyddiol am 8.00yb hyd 8.45yb. Darperir brecwast iachus i'r plant am £2 y dydd. Gellir talu drwy ddefnyddio ParentPay. Am fwy o fanylion cysylltwch â'r ysgol.

# Cyflawniadau

## Ysgol Iach

Mae'r ysgol yn rhan o raglen Ysgolion Iach Powys. Derbyniodd yr ysgol cam 4 o'r rhaglen yng Ngorffennaf 2013. Mae'r staff a disgyblion wedi ymrwymo i sicrhau fod y neges o fwyta'n iach, cadw'n heini, hylendid personol, iechyd meddwl a lles, perthynas gydag eraill, yn ogystal â diogelwch yn cael sylw ac yn rhan o fywyd dyddiol yr ysgol.

## Ysgol Eco

Mae'r ysgol yn un eco- gyfeillgar ac wedi ennill y wobr uchaf o blatinwm yn 2017; a phob blwyddyn yn olynol. Derbyniodd yr ysgol y faner werdd gyntaf yn ôl yn 2009. Mae'r wobr yn cydnabod gwaith y mae'r ysgol wedi ei wneud i sicrhau bod yr ysgol yn fan eco-gyfeillgar. Dros y blynyddoedd mae'r Cyngor Eco a'r staff wedi ymrwymo i weithgareddau mentergarwch gwahanol er mwyn cyflawni gofynion y gwobrau gwyrdd.

## Active Marc Cymru

Yn 2013 derbyniodd yr ysgol y wobr 'Active Marc Cymru', gan gydnabod ymrwymiad yr ysgol i ddarparu Addysg Gorfforol o'r safon Uchaf, Chwaraeon Ysgol a'r ddarpariaeth ar gyfer Gweithgareddau Corfforol.

## Siarter Iaith/Cymraeg Campus Gwobr Efydd

Yn 2018, derbyniodd yr ysgol y wobr efydd am ei ymrwymiad yn annog disgyblion i ddefnyddio'r Iaith Gymraeg unai fel iaith gyntaf neu fel ail iaith. Mae staff, disgyblion a'r Criw Cymraeg wedi gweithio yn galed i drefnu digwyddiadau sydd yn hyrwyddo'r defnydd o Gymraeg yn yr ysgol ac yn ein cymuned.

## Basic Skills Quality Mark

Mae'r Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol yn gwobrwyo Ysgolion Cynradd ac Uwchradd yng Nghymru sydd yn datblygu arfer dda ac effeithiol o gynorthwyo medrau sylfaenol disgyblion o ddarllen, ysgrifennu, yn y Gymraeg a'r Saesneg a mathemateg.

# Llais y Disgybl

Mae llais y disgybl yn rhan ganolog o sut mae'r ysgol yn gweithredu, ac mae disgyblion yr ysgol yn cael lleisio eu barn mewn sawl ffordd wahanol.

## Cyngor Ysgol

Yn flynyddol, mae disgyblion yn cael rhoi eu henwau ymlaen i fod yn aelodau o bwyllgorau'r ysgol, boed yn Ysgol Eco, Criw Cymraeg, Arweinwyr Digidol neu Cyngor Chwaraeon a Bwyta'n Iach. Mae'r pwyllgorau yma yn cyfarfod yn rheolaidd ac yn gweithio ar brosiectau a thasgau sydd yn ymwneud a'u gwaith ar y pwyllgor.

Mae cynrychiolwyr o bob pwyllgor wedyn yn rhoi eu henwau ymlaen i fod ar y Cyngor Ysgol ac yn cael eu hethol gan eu cyd-ddisgyblion. Unwaith mae hyn wedi digwydd, maent yn rhoi eu hunain ymlaen ar gyfer rôl y Cadeirydd, is- Gadeirydd ac Ysgrifennydd ac yn cael eu hethol gan aelodau o'r pwyllgor. Mae'r Senedd yn cyfarfod yn er mwyn trafod materion sydd yn codi ac am sut i ddatblygu'r ysgol.

## Hawliau Plant

Mae gan blant a phobl ifanc 42 hawl o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Plant. Mae'r 42 erthygl yn sicrhau yr hyn sydd yr angen i blant a phobl ifanc dyfu i fyny yn hapus, Iach a diogel.

Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales

Yn 2011, Cymru oedd y wlad gyntaf yn y Deyrnas Unedig i wneud yr UNCRC yn rhan o ddeddf ddomestig.

Mae'r hawliau yma yn bethau sydd yn angenrheidiol i blant fod yn ddiogel, iach ag hapus. Yma yn Ysgol Llanrhaeadr Ym Mochnant, rydym yn annog disgyblion i drafod eu hawliau ac yn eu haddysgu amdanynt yn rheolaidd. Mae'r hawliau/erthyglau wedi eu harddangos ar draws yr ysgol ac wedi eu cysylltu gyda gwahanol elfennau o fywyd ysgol.

Am fwy o wybodaeth fedrwch ddefnyddio y ddolen hon – HAWLIAU PLANT

# Cwricwlwm

Ein nod yn Ysgol Llanrhaeadr ym Mochnant yw dysgu cwricwlwm eang, cytbwys a chreadigol mewn modd hwyliog fel bod pob plentyn yn cyrraedd ei llawn botensial. Byddwn yn defnyddio technegau ymarferol ac academaidd. Rydym yn ymdrechu i sicrhau fod ein cwricwlwm yn briodol ar gyfer anghenion y disgyblion drwy ddefnyddio technegau sydd yn datblygu agwedd cadarnhaol ar gyfer dysgu, deall a datblygu gwybodaeth a medrau. Mae'r gwaith yn wahaniaethol fel gan bob plentyn fynediad i'r cwricwlwm.

Mae hi'n amser cyffroes i fod yn ysgol yng Nghymru gyda dyfodiad y cwricwlwm newydd, Cwricwlwm i Gymru. Mae'r cwricwlwm newydd yn statudol o Fedi 2022. Ac mae ein datganiad i weld ar y wefan am fwy o wybodaeth.

Mae disgyblion yn dechrau'r ysgol yn y Cyfnod Sylfaen (4-7 oed) ac yna Cyfnod Cynradd (7-11 oed).

## Cwricwlwm i Gymru

Mae'r Pedwar Diben yn sylfaen i'r Cwricwlwm i Gymru o ran cynllunio, dylunio a dysgu. Mae'r Cwricwlwm i Gymru yn rhoi rhyddid inni gynllunio ein cynnwys wedi seilio ar y pedwar diben, ac yn fan cychwyn ac yn ysbrydoliaeth i'n dylunio cwriwlaidd.
Ein nôd fel ysgol yw cefnogi ein dysgwyr i fod yn:

- ***ddysgwyr uchelgeisiol, galluog*** *sy'n barod i ddysgu drwy gydol oes.*
- ***yn gyfranwyr mentrus creadigol*** *sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith.*
- ***yn ddinasyddion egwyddorol,gwybodus*** *sydd yn barod i fod yn ddinasyddion Cymru a'r byd.*
- ***yn unigolion iach,hyderus*** *sy'n barod i fyw bywydau boddhaus fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.*

Mae'r Cwricwlwm i Gymru yn rhoi rhyddid inni gynllunio ein cynnywys wedi seilio ar y 6 Maes Dysgu a Phrofiad gyda datganiadau O'r Hyn Sydd Yn Bwysig:

- Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu
- Celfyddydau Mynegianol
- Gwyddoniaeth a Thechnoleg
- Dyniaethau
- Mathemateg a Rhifedd
- Iechyd a Lles

## Crefydd Gwerthoedd a Moeseg

Mae Crefydd Gwerthoedd a Moeseg yn ofyniad statudol o'r Cwricwlwm i Gymru ac yn statudol ar gyfer pob dysgwr rhwng 3 oed ag 16 oed. Mae'n rhaid iddo adlewyrchu credodau crefyddol yn ogystal ag rhai angrhefyddol. Does gan rhieni **ddim hawl** i dynnu ei plentyn allan o'r CGM yn y Cwricwlwm i Gymru. Gan fod CGM yn bwnc sy'n cael ei benu yn lleol, mae'r maes llafur cytun o fewn CGM yn cael ei ddysgu drwy'r awdurdod lleol ac arweiniad a bydd y Cwricwlwm yn adlewyrchu hyn.

Mae disgyblion yn rhan o wasanaethau ysgol gyfan yn wythnosol yn ogytal a sesiynau cyd addoli dyddiol.

## Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb

Mae ein hysgol yn dilyn y canllawiau gorfodol ACRh. Mae'n cynnwys:

- Perthnasedd a Hunaniaeth;
- Lles a Iechyd Rhyw;
- Parch a Diogelwch

Dysgir disgyblion Ysgol Llanrhaeadr sgiliau personol a chymdeithasol mewn sawl ffordd wahanol:

- Ysgol Dina – Rhaglen Datblygiad Medrau Cymdeithasol ar gyfer y Blynyddoedd Cynnar
- KiVA – Rhaglen gwrth- fwlio ar gyfer CA2
- Amser cylch
- Amser trafod
- Gwasanaeth

## Asesu

Mae adroddiad ysgrifenedig yn cael ei anfon adref i rieni/gofalwyr yn flynyddol, yn adrodd ar ddatblygiad eu plentyn yn ystod y flwyddyn academaidd. Bydd ein Cwricwlwm yn cefnogi dysgu drwy ddylunio cyfleoedd sydd yn tynnu ar brinsipalau pedagogaidd. Bydd gan pob Maes Dysgu a Phrofiadau ddatganiadau Yr Hyn Sydd yn Bwysig. Bydd rhain wedi eu torri lawr i gamau cynnydd sydd yn cynnwys disgrifiadau dysgu ar gyfer pob cam cynnydd. Maent yn cyfateb yn fras i'w hoedran, ffodd bynnag gall blentyn fod unrhyw le ar y llinell dilyniant, a gall eu datblygiad amrywio yn y gwahanol meysydd dysgu.

Gweinir Profion Cenedlaethol mewn rhifedd a darllen i ddisgyblion blwyddyn 2 ac uwch. Cynhelir nosweithiau agored yn dymhorol fel bod rhieni/gofalwyr yn gallu gweld gwaith eu plant a thrafod datblygiad eu plentyn gyda'r athrawon.

Gwneir defnydd o offer asesu i gynorthwyo disgyblion ag anghenion dysgu, er enghraifft *Nessy* i gynorthwyo darllen â sillafu.

## Gwaith Cartref

Bydd gwaith cartref ym mlynyddoedd 3 -6 yn cynnwys darllen, sillafu ac ymarfer tablau. Gall blant hefyd cyflawni tasgau yn ymwneud â'u gwaith thema er mwyn ymestyn a dyfnhau eu dysgu o'r dosbarth.

Ym mlynyddoedd derbyn-2 y gwaith cartref bydd darllen yn rheolaidd gydag eich plentyn.

Bydd cofnod darllen gan bob plentyn er mwyn cofnodi a gwneud sylw ar ddatblygiad.

## Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)

Mae pob plentyn yn dysgu mewn modd gwahanol. Ein bwriad ni yw cynorthwyo'r dysgu drwy ddefnyddio strategaethau gwahanol a gwaith gwahaniaethol er mwyn cynorthwyo mynediad i'r cwricwlwm beth bynnag yw gallu plentyn.

Fodd bynnag, mae rhai plant angen cymorth ychwanegol ac mae eraill angen eu herio. Mae'r ysgol yn monitro datblygiad disgyblion yn ofalus ac yn adnabod y rhai disgyblion sydd angen cymorth ychwanegol a'r rhai sydd angen eu herio (Mwy Abl a Thalentog).

Os yw plentyn yn parhau i fod angen cymorth ychwanegol wedi ymyrraeth gynnar, bydd datblygiad yn cael ei drafod gyda rhieni/gofalwyr. Os yw rhieni/gofalwyr yn cytuno, bydd y plentyn yn cael ei roi ar restr Anghenion Dysgu Ychwanegol yr ysgol a bydd Cynllun Datblygu Cyffredinol (CDC) yn cael ei ysgrifennu gyda thargedau penodol i gynorthwyo datblygiad.

Os oes angen cymorth penodol ar blentyn, bydd yr ysgol yn cydweithio ag asiantaethau allanol, h.y. therapydd iaith a lleferydd, ffisiotherapydd, nyrs ysgol, meddygon teulu a seicolegydd addysgol. Os yw plentyn yn derbyn cymorth gan asiantaeth allanol, byddant yn cael statws Gweithredu Ysgol Ychwanegol a bydd cynllun CDU arbenigol yn cael ei ysgrifennu ar eu cyfer.

Ar adegau, ble mae plentyn angen cymorth mwy arbenigol, mewn ymgynghoriad â rhieni/gofalwyr gyda'r Cyngor Lleol, mae Datganiad Anghenion Ychwanegol yn cael ei baratoi. Bydd y Cyngor Lleol wedyn yn gyfreithiol dan orfodaeth i ddarparu ar gyfer yr anghenion sydd wedi eu nodi yn y datganiad.

Mae plant sydd yn cael eu hadnabod fel Mwy Abl a Thalentog (MAT) yn derbyn cymorth drwy heriau gwahaniaethol a gwaith grŵp a fydd yn datblygu eu gallu i weithio ar gyflymder priodol.

Bydd disgyblion sydd angen cymorth ychwanegol yn derbyn cymorth yn y dosbarth drwy waith gwahaniaethol gan weithio mewn grŵp o'r un gallu. Bydd ein cymhorthyddion dosbarth hefyd yn darparu cymorth hanfodol mewn grwpiau bach neu weithiau 1 i 1. Am fwy o wybodaeth gofynnwch i weld y polisi ADY.

## Cymorthydd a Chefnogaeth Llenyddiaeth Emosiynol (ELSA)

Mae Mrs Beth Evans wedi'i hyfforddi fel cymhorthydd ELSA ac yn gweithio ar raglenni gwahanol gyda disgyblion sydd ag anawsterau emosiynol, cyfathrebu â chymdeithasu. Mae'r rhaglen wedi ei ddatblygu gan seicolegwyr addysgiadol ac yn ffordd effeithiol o gefnogi a chynorthwyo plant ag anghenion emosiynol.

## Yr Iaith Gymraeg

Mae Ysgol Llanrhaeadr ym Mochnant yn ysgol ddwy ffrwd gyda dewis gan rieni i addysgu eu plentyn unai drwy'r iaith Gymraeg neu'r iaith Saesneg. Mae disgyblion yn y ffrwd Gymraeg yn cael eu dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn unig yn y cyfnod Sylfaen (blynyddoedd Derbyn hyd at Blwyddyn 2) ac yn dechrau dysgu'r Saesneg o flwyddyn 3 ymlaen. Mae plant yn y ffrwd Saesneg yn cael eu dysgu drwy gyfrwng y Saesneg, ac yn dysgu'r Gymraeg fel ail iaith o flwyddyn derbyn ymlaen.

Anogir disgyblion i siarad Cymraeg ar yr iard ac o gwmpas yr ysgol. Fodd bynnag gan ein bod yn ysgol ddwyieithog mae gweithgareddau fel gwasanaethau a chyngherddau yn cael eu gwneud yn y ddwy iaith. Ein nod yn Ysgol Llanrhaeadr Ym Mochnant yw datblygu gallu holl ddisgyblion yr ysgol i fod yn ddinasyddion dwyieithog sydd yn ymwybodol o ddiwylliant Cymreig.

## Aelodaeth yr Urdd

Rydym yn annog disgyblion i fod yn aelodau o'r Urdd. Mae'r Urdd yn darparu nifer o gyfleoedd gwahanol drwy gyfrwng yr Iaith Gymraeg i blant a phobl ifanc Cymru, ac yn eu galluogi i wneud cyfraniad positif i'w cymunedau.

Pob blwyddyn, mae cyfle i ddisgyblion ymuno â'r Urdd, maent yn cael y cyfle i gystadlu yn Eisteddfod yr Urdd (canu, llefaru, offerynnol, dawnsio, ymgom a celf a chrefft). Mae cystadlaethau chwaraeon yr Urdd hefyd (pêl droed, pêl rwyd, rygbi, nofio a thraws gwlad) ac ym mlwyddyn 5 & 6 mae cyfle i fynd i wersylloedd Llangrannog, Glanllyn a Chaerdydd. Cost yr aelodaeth am y flwyddyn yw £10. Os ydych yn gymwys ar gyfer cymorth PYAD, cost aelodaeth yw £1.

Am fwy o wybodaeth defnyddiwch y cyswllt yma – Gwefan Urdd

## Eisteddfod Ysgol

Cynhelir Eisteddfod Ysgol yn flynyddol yn neuadd yr ysgol ac mae pob plentyn yn cymryd rhan, boed yn canu, llefaru, gwaith celf, dawnsio, ysgrifennu neu berfformiad offerynnol. Mae'r disgyblion yn cystadlu yn eu tai (Berwyn, Tanat, Rhaeadr) ac mae cwpan i'r tîm buddugol, yn ogystal â gwobrau unigol.

Pob blwyddyn, mae aelodau o'r gymuned yn ein hymuno ar y dydd i fod yn feirniaid y gwahanol gystadlaethau.

## Gweithgareddau Allgysriol

Fel ysgol rydym yn falch iawn o'r hyn rydym yn gallu ei ddarparu yn allgyrsiol. Mae amrywiaeth o weithgareddau a chyfleoedd drwy gydol y flwyddyn.

Mae unrhyw ddisgybl sydd yn cynrychioli'r ysgol mewn unrhyw weithgaredd yn cael eu cydnabod, ac mae hi'n fraint sydd o'r un cyflawniad a medrau academaidd a celfyddydol.

Dyma esiamplau o weithgareddau allgyrsiol :

- Clybiau (Urdd, Chwaraeon, Dawns, Codio)
- Diwrnodau di – amserlen (Iechyd a Lles, Diwrnod Cerddoriaeth Cymraeg)
- Ymwelwyr (Cerddorol, Cymunedol, Diddanwyr)
- Cyngherddau Nadolig, Diolchgarwch
- Digwyddiadau Chwaraeon (Gweler Addysg Gorfforol a Chwaraeon Ysgol)
- Ymweliadau Addysgiadol (theatr, diwedd y flwyddyn, preswyl, lleol)
- Cwis Llyfrau
- Diwrnod y Llyfr
- Hyfedredd Beicio – bl 6
- Gwersi offerynnol (dryms, piano, telyn a gitar)

## Ymweliadau Addysgiadol

Trefnir sawl ymweliad yn ystod y flwyddyn ysgol. Gofynnir i rieni/gofalwyr lenwi ffurflen caniatâd ar gyfer pob ymweliad. Bydd yr ysgol efallai yn gofyn am gyfraniad ariannol tuag at rai gweithgareddau.

Mae disgyblion ym mlynyddoedd 5 & 6 yn cael y cyfle i brofi ymweliadau preswyl yn Llangrannog, Glanllyn a Chaerdydd.

Mae'r ysgol yn gwneud ymweliadau â'r pentref yn aml, gan gerdded i'r pentref i fynd i'r siopau lleol, Eglwys Sant Dogfan a Chapel Seion.

## Gwersi Offerynnol

Mae'r ysgol yn cynnig gwersi offerynnol i ddisgyblion sydd yng Nghyfnod Allweddol 2. Dysgir y gwersi hyn gan athrawon cerddorol peripatetig ac fe delir iddyn nhw yn uniongyrchol. Ar hyn o bryd, rydym yn cynnig gwersi drwm, telyn, piano a gitâr.

## Addysg Gorfforol a Chwaraeaon

Mae gan yr ysgol draddodiad cryf o ddarparu nifer helaeth o weithgareddau chwaraeon gwahanol. Dysgir dawns, gymnasteg, nofio a gemau (pêl droed, pêl rwyd, hoci, criced, rownderi, tenis, athletau a gweithgareddau allanol).

Mae disgyblion Cyfnod Allweddol 2 yn cael dwy wers yr wythnos gyda disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn cael un. Byddant yn dechrau gwersi nofio ym mlwyddyn 3, yng Nghanolfan Hamdden Llanfyllin. Mae gwersi nofio bob hanner tymor cyn ac ar ôl gwyliau'r Nadolig. Mae hefyd clwb chwaraeon ar gyfer ein disgyblion ac mae disgyblion CA2 yn cymryd rhan mewn sesiwn milltir y dydd.

Cynhelir diwrnod mabolgampau yn flynyddol ac mae pob disgybl yn cymryd rhan mewn nifer o weithgareddau; athletau yn y bore a rasus yn y prynhawn. Unwaith eto, bydd disgyblion yn cystadlu yn eu tai a bydd cwpan i'r tîm buddugol, yn ogystal â gwobrwyon unigol. Gwahoddir rhieni/gofalwyr i ddod i wylio yn ystod y dydd.

Mae'r ysgol yn cystadlu mewn cystadlaethau lleol a chenedlaethol yn erbyn ysgolion eraill yr ardal, mewn gwahanol chwaraeon gan gynnwys yr Urdd. Mae hyn yn meithrin gweithio fel tîm, datblygu medrau chwaraeon, yn ogystal â magu balchder yn eu hysgol. Ein nod yw rhoi cyfleoedd i ddisgyblion beth bynnag eu gallu i gymryd rhan mewn gweithgareddau cystadleuol.

Mae gan yr ysgol llysgenhadon efydd; criw o ddisgyblion sydd yn gyfrifol am hyrwyddo gweithgareddau corfforol i ddisgyblion eraill.

## Fframwaith Digidol

Mae'r ysgol yn falch iawn o'r modd mae'n hyrwyddo dysgu digidol a'r defnydd o dechnoleg. Mae'n gweithio yn galed gan geisio gwella medrau digidol pob dysgwr i gyrraedd gofynion y Fframwaith Digidol.

Rydym yn ffodus iawn i gael nifer helaeth o offer digidol fel gliniaduron, llyfrau chrome, pad i a sgriniau rhyngweithiol ym mhob dosbarth.

Mae'r offer gwahanol yn galluogi mynediad digidol i'n disgyblion. Gwneir defnydd effeithiol o apiau a gwefannau addysgiadol gwahanol i weithgareddau trawsgwricwlaidd.

Mae gan bob disgybl yng Nghymru fynediad i HWB, sef llwyfan digidol unigryw i ddisgyblion sydd yn mynychu ysgol yng Nghymru. Drwy HWB mae gan y disgyblion fynediad i holl offer Microsoft fel Word, Teams, J2E, Encyclopaedia Britannica, Minecraft: Education Edition, Flipgrid, Adobe Spark a Google Addysgiadol. Gall offer Microsoft gael ei lawrlwytho i offer adref a'i ddefnyddio ar gyfer gwaith cartref a.y.y.b.

## Canolfan Addysgu Minecraft

Rydym yn falch iawn o fod yn Ganolfan Addysgu Minecraft, yn addysgu staff ar draws Cymru sut i wneud defnydd effeithiol o Minecraft: Education Edition yn y dosbarth. Rydym yn un o bum canolfan yng Nghymru ac yn mwynhau gweithio gyda ein cydweithwyr, gan ddatblygu syniadau sut i wneud yr offeryn digidol am ddim yma yn effeithiol i holl ddisgyblion Cymru.

## Diogelwch Ar Lein

Mae gan yr ysgol bolisi clir ar ddefnyddio'r we yn ddiogel. Addysgir disgyblion sut i gadw yn ddiogel ac maent yn cael eu hatgoffa o'r rheolau yn aml. Adolygir y polisi yn aml wrth i dechnoleg newid yn gyflym.

## Presenoldeb

Mae'r Ddeddf Addysg 1996 yn nodi mai cyfrifoldeb rhieni neu gofalwyr ydi sicrhau bod pob plentyn rhwng 5 oed a 16 mlwydd oed yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd ac ar amser. Yr unig reswm cyfreithiol a derbyniol sydd am beidio mynychu'r ysgol ydy salwch, apwyntiadau meddygol a diwrnodau crefyddol. Mae'r ysgol yn dilyn polisi Presenoldeb Addysg Powys.

### Adrodd ar Absenoldeb

Rhaid i rieni/gofalwyr adrodd ar absenoldeb erbyn 9.15yb drwy neges ffôn, ebost neu'r ap WEDUC. Os na fydd rheswm wedi ei dderbyn bydd yr ysgol yn gofyn am eglurhad. Os na fydd yr ysgol yn derbyn rheswm digonol, bydd absenoldeb 'ddim wedi ei awdurdodi' yn cael ei gofnodi ar gyfer y plentyn. Bydd mynediad hwyr i'r ysgol yn cael ei gofnodi yn ddigidol wrth y prif fynediad wrth gyrraedd.

### Gwyliau yn Ystod y Tymor

Mae Corff Cofrestru Rheoliadau Disgyblion (Cymru) 2010 yn darparu penaethiaid gyda'r pŵer taleithiol, i awdurdodi gwyliau yn ystod y tymor i rieni / gofalwyr sydd yn gofyn caniatâd. Mae'r broses sydd yn bodoli ar gyfer yr ysgol wedi eu nodi isod ac yn cael eu cymryd i ystyriaeth cyn bod penderfyniad yn cael ei wneud i ganiatáu ac awdurdodi gwyliau yn ystod y tymor yr ysgol:

- Ffigyrau presenoldeb am y flwyddyn flaenorol (uwch na 90%)
- Ymddygiad ac agwedd tuag at fywyd ysgol.
- Bod y gwyliau ddim yn effeithio ar gyfer cyfnodau allweddol o addysgu.
- Ffurflen a chaniatâd gwyliau wedi cael ei gwblhau **28 diwrnod** cyn y gwyliau.

Bydd rhieni / gofalwyr disgyblion â phresenoldeb gwael (o dan 90%) yn derbyn llythyr gan y pennaeth. Ym Mhowys, mae 'Rhybudd Cosb Sefydlog' yn cael ei ystyried gan y pennaeth os oes mwy na 5 diwrnod (10 sesiwn) o absenoldebau heb eu caniatáu yn cael eu cofnodi, yn ogystal â lefel y presenoldeb o dan 90% ar gyfer y flwyddyn ysgol. Bydd problemau parhaus ynglŷn â phresenoldeb a chofnodion hwyr i'r ysgol yn cael eu hadrodd yn ôl i'r Swyddog Lles a fydd yn ymchwilio'r mater.

### Dathlu Presenoldeb

Fel ysgol rydym wedi dathlu yn dymhorol presenoldeb da, gyda disgyblion yn derbyn tystysgrifau os ydy eu presenoldeb yn uwch na tharged yr ysgol.

# Ymddygiad

## Ymddygiad Cadarnhaol

Fel ysgol, rydym yn pwysleisio ymddygiad cadarnhaol yn hytrach nag ymddygiad negyddol. Mae gennym dri rheol clir; Parod, Parch, Diogel a chredwn yn gryf mewn canmoliaeth. Mae canmoliaeth yn cael ei ennill am safon dda o ymddygiad yn ogystal â chyflawniad nodedig. Bydd cydnabyddiaeth am ymddygiad da yn cael ei roi ar lafar, sticeri, amser aur, tystysgrifau, stampiau, gwaith gwych ar y wal, a rhannu gwaith da gydag eraill neu gydag athrawon gwahanol. Bydd pwyntiau Dojo hefyd yn cael ei roi i ddysgwyr sydd yn dilyn tri rheol aur yr ysgol.

## Cosbau Ymddygid Gwael.

Bydd plant sydd yn dewis torri'r rheolau yn deall fod cosbau yn cael eu gosod. Mae pob plentyn yn ymwybodol o reolau'r ysgol a chanlyniad eu torri. Er mwyn sicrhau cysondeb drwy'r ysgol, rydym yn defnyddio system flaengar er mwyn ymateb i ymddygiad amhriodol.

Os ydy ymddygiad plentyn yn barhaol amhriodol, bydd y Pennaeth yn cael ei hysbysu. Bydd y pennaeth yn ei dro, os yn teimlo ei fod yn briodol, yn cysylltu gyda'r rhieni er mwyn trafod y mater gyda hwy.

## Ymddygiad Tu Allan i Amgylchedd y Dosbarth

Mae'r broses uchod yn gweithio yn effeithiol o fewn waliau'r dosbarth, fodd bynnag nid yw bob amser yn briodol ar gyfer y dosbarth allanol, amser chwarae, neu weithgareddau allgyrsiol e.e digwyddiadau chwaraeon ac ymweliadau a.y.b. Yn ystod digwyddiadau o'r fath bydd yr aelod o staff sydd yn gyfrifol amdanynt ar y pryd yn delio gyda'r ymddygiad fel y bo angen. Os ydy plentyn yn cam ymddwyn yn ystod amser chwarae neu weithgareddau allgyrsiol, gall y plentyn gael ei wahardd rhag cymryd rhan mewn digwyddiadau o'r fath yn y dyfodol ac yn ôl penderfyniad y Pennaeth.

## Taliadau

Ar wahân i rai eithriadau, ni all yr ysgol godi tâl ar rieni/gofalwyr am addysg o fewn oriau'r ysgol neu i gyflawni oblygiadau y Cwricwlwm (er gellir gofyn am gyfraniad tuag at gostau) ond fe ellir codi tâl ar rieni/gofalwyr am weithgareddau eraill.

Gofynnir i rieni/gofalwyr am gyfraniadau gwirfoddol er mwyn talu costau ymweliadau addysgiadol, nofio a thrafnidiaeth i'r theatr a gweithgareddau chwaraeon. Os oes trafferthion gwneud taliadau am unrhyw ymweliad, cysylltwch ar Pennaeth yn ddi-os.

Rydym yn y broses o fod yn ddi- arian parod ac mae'r ap/gwefan ParentPay yn cael ei ddefnyddio i dalu am y mwyafrif o bethau. Bydd rhieni/gofalwyr yn creu cyfrif sydd yn cael ei ddefnyddio i dalu cinio ysgol.

## Prydiau Ysgol am Ddim

Os ydych ar incwm isel, gall Powys eich cynorthwyo gyda chostau prydiau ysgol ar gyfer plant mewn addysg llawn amser. Fedrwch chi gofrestru am brydiau am ddim, hyd yn oed os ydi eich plentyn yn penderfynu peidio bwyta cinio ysgol. Gallwch gynorthwyo'r ysgol i dderbyn cyllid ychwanegol drwy gofrestru. Gall gofrestru am Prydiau Ysgol am Ddim efallai eich cynorthwyo am gymorth ychwanegol. Mae pob disgybl oedran derbyn hyd at flwyddyn 3 yn gymwys ar gyfer cinio ysgol am ddim.

Am fwy o wybodaeth am bwy sydd yn gymwys am PYAD defnyddiwch y cyswllt yma - Gwybodaeth Prydiau Ysgol am Ddim Powys

## Grant Amddifadedd Plant

Mae'r Cynllun Datblygu ysgol yn cynnwys strategaeth ar gyfer gwella anghenion disgyblion sydd yn cynnwys disgyblion sydd yn derbyn Prydiau Ysgol am Ddim. Yn 2022-2023 roedd ffocws yr ysgol i ddatblygu a pharhau gydag ymyrraeth ar gyfer datblygu llythrennedd a rhifedd, yn ogystal â dynesu agwedd ysgol gyfan tuag at ymddygiad, a lles emosiynol cadarnhaol. Roeddem hefyd wedi gallu cynorthwyo teuluoedd sydd yn derbyn PYAD gyda thaliadau ar gyfer gwersi offerynnol a phrofiaday cyfpethog tu mewn ac allan. Gweler datganiad ar y wefan yr ysgol ar defnydd o wariant.

## Cymdeithas Rhieni ac Athrawon (CRhA)

Rydym yn lwcus iawn fel ysgol i gael CRhA cefnogol dros ben. Maent yn gweithio'n eithriadol o galed er mwyn codi arian mawr ei angen, wrth drefnu gweithgareddau cymdeithasol ar gyfer disgyblion, rhieni a'r gymuned ehangach.






Dyma rai o weithgareddau a digwyddiadau maent wedi trefnu:

- Noson Gymdeithasol gyda Band – Neuadd Bentref
- Ffair Nadolig
- Bingo Pasg
- Hwyl Haf Pêl Droed
- 'Bags 4 Schools' Ailgylchu Dillad
- Taith Gerdded

Mae'r CRhA wedi llwyddo i godi y cyfanswm anhygoel o arian dros y blynyddoedd sydd wedi galluogi i'r ysgol dalu am:

- Ymweliad Panto
- Drymiau Samba
- Weduc
- Offer Gwyddoniaeth
- Rhwydi Tenis
- Gweithdy Cerddorol
- iPads
- Byrddau picnic



Mae'r CRhA yn cyfarfod yn rheolaidd, o leiaf unwaith bob hanner tymor. Byddai eich cyfraniad tuag at y CRhA yn cael ei werthfawrogi yn fawr ac mae croeso i bob rhiant fynychu'r cyfarfodydd.



## Cysylltiadau'r Gymuned

Mae'r ysgol yn falch iawn o weithio gyda sawl gwahanol unigolyn a sefydliad lleol. Rydym yn eu cynnwys mewn nifer o weithgareddau rydym yn eu trefnu ac hefyd yn ymweld â'r pentref yn aml.

Mae ein gwasanaeth diolchgarwch yn cael ei gynnal bob yn ail flwyddyn yn Eglwys Sant Dogfan yn y pentref fel y mae ein gwasanaeth carolau yng nghapel Seion.

Defnyddir neuadd yr ysgol ar gyfer sesiynau mam a phlentyn. Mae'r neuadd yn cael ei logi allan i gymdeithasau y pentref fel y Cubs /Scouts a'r Ffermwyr Ifanc.

Mae gennym gysylltiad cryf gyda Chlwb Pêl-droed Llanrhaeadr ac maent yn ein cynorthwyo yn flynyddol i osod y llinellau ar gyfer ein diwrnod mabolgampau a diwrnod Hwyl Haf blynyddol.

## Gwaith Elusen

Drwy gydol y flwyddyn mae'r ysgol yn cefnogi nifer o elusennau lleol a chenedlaethol. Yn ystod 2022-23 cododd yr ysgol symiau gwahanol o bres drwy ddiwrnodau ysgol di–wisg ysgol, pobi cacennau a gweithgareddau noddedig.

## Cyfryngau Lleol

Pob mis, mae hanes a chyflawniadau ein hysgol yn cael ei ddathlu yn Yr Ysgub, a'r Chronicle -papurau bro yr ardal. Mae ein colofnydd Mrs Turner yn eu hysbysu o'r digwyddiadau. O dro i dro, bydd ein hanes yn Y County Times a'r Advertiser.

## Gwefan Ysgol/ Cyfryngau Cymdeithasol

Mae gan yr ysgol wefan manwl lle gellir gweld a chael gwybodaeth â pholisïau. Rydym hefyd yn dathlu llwyddiannau a gweithgareddau'r ysgol drwy Facebook (grŵp caeëdig ar gyfer rhieni a gofalwyr), ein app Weduc ac ar Twitter.

Fel y soniwyd yn gynharach mae caniatâd yn cael ei roi gan rieni/gofalwyr cyn bod unrhyw beth yn cael ei gyhoeddi.

## Arolwg

Cafodd yr ysgol ei arolygu ddiwethaf yn Mehefin 2022, gellir gweld yr adroddiad trwy glicio'r dolen yma.

## Cwynion / Pryder

Os oes ganddoch unrhyw bryderon neu gwynion am yr ysgol, dewch i mewn i'r ysgol i drafod gyda:

1) athro / athrawes dosbarth

   ac

2) Pennaeth

   neu

3) Cadeirydd y Llywodraethwyr

Os nad ydych wedi eich bodloni, gallwch ysgrifennu at y Corff Llywodraethol (pob gohebiaeth i'r clerc os gwelwch yn dda) er mwyn i'r mater gael ei drafod mewn Cyfarfod Llywodraethol. Byddwch yn derbyn gohebiaeth ysgrifenedig yn ôl gan y Corff Llywodraethol.

Os nad ydych wedi eich bodloni â hynny, gallwch ysgrifennu at eich Awdurdod Lleol.
Mae copi o'r Polisi Cwynion a'r broses ar gael.

# Atodiad 1 – Dyddiadau Tymor 2022 - 2023

Powys

## 2023 – 2024 CALENDR YSGOLION [1]

| Tymor yr Hydref 2023 | Dyddiadau Dim Disgyblion | Nifer y Dyddiau Ysgol |
|---|---|---|
| Dydd Llun 4 Medi hyd Dydd Gwener 27 Hydref | Dydd Gwener 1 Medi [2] | 40 o ddyddiau |
| **Hanner Tymor – Dydd Llun 30 Hydref i ddydd Gwener 3 Tachwedd** | | |
| Dydd Llun 6 Tachwedd hyd Dydd Gwener 22 Rhagfyr | Dydd Gwener 22 Rhagfyr [2] | 34 o ddyddiau |

| Tymor y Gwanwyn 2024 | Dyddiadau Dim Disgyblion | Nifer y Dyddiau Ysgol |
|---|---|---|
| Dydd Mawrth 9 Ionawr hyd Dydd Gwener 9 Chwefror | Dydd Llun 8 Ionawr [2] | 24 o ddyddiau |
| **Hanner Tymor – Dydd Llun 12 Chwefror to Dydd Gwener 16 Chwefror** | | |
| Dydd Llun 19 Chwefror hyd Dydd Gwener 22 Mawrth | | 25 o ddyddiau |

| Tymor yr Haf 2024 | Dyddiadau Dim Disgyblion | Nifer y Dyddiau Ysgol |
|---|---|---|
| Dydd Llun 8 Ebrill hyd Dydd Gwener 24 Mai | | 34 o ddyddiau |
| **Hanner Tymor – Dydd Llun 27 Mai i ddydd Gwener 31 Mai** | | |
| Dydd Llun 3 Mehefin hyd Dydd Gwener 19 Gorffennaf | | 35 o ddyddiau |

**Dyddiau heb ddisgyblion**: bydd tri diwrnod arall heb ddisgyblion, dau yn nhymor yr hydref ac un yn nhymor yr haf. Edrychwch ar wefan eich ysgol i weld y manylion ar gyfer y rhain.

| | |
|---|---|
| **Gwener y Groglith:** | Dydd Gwener 29 Mawrth 2024 |
| **Dydd Llun y Pasg:** | Dydd Llun 1 Ebrill 2024 |
| **Gŵyl Banc Calan Mai:** | Dydd Llun 6 Mai 2024 |
| **Gŵyl Banc ddiwedd mis Mai:** | Dydd Llun 27 Mai 2024 |
| **Sioe Frenhinol Cymru:** | Dydd Llun 22 Gorffennaf i ddydd Iau 25 Gorffennaf 2024 |

[1] *Gall y calendr hwn newid o ganlyniad i benderfyniadau polisi Llywodraeth Cymru. Nid yw Cyngor Sir Powys yn atebol am unrhyw golledion yn sgil unrhyw drefniadau gwyliau sy'n newid oherwydd y newidiadau hynny.*

[2] *Er bod Powys yn dynodi'r diwrnodau dim disgyblion ar gyfer ei holl ysgolion, mae'r ysgolion yn gallu amrywio'r rhain ar sail dalgylch. Felly argymhellir eich bod yn edrych ar y calendr ysgol sy'n cael ei chyhoeddi gan eich ysgol leol yn ogystal â chalendr ysgol yr Awdurdod oherwydd bydd yn cynnwys unrhyw amrywiaethau lleol.*

# Atodiad 2 – Presenoldeb 2022 -2023

## School Summary


Powys

**Llanrhaeadr Ym Mochnant C.P. School**

**From:** *05/09/2022* **To:** *21/07/2023*

### School Summary by ALN

| | *Attended* | *Authorised Absence* | *Unauthorised Absence* | Percentage |
|---|---|---|---|---|
| *DNA* | 92.17% | 7.73% | 0.10% | 91.04% |
| *IDP-SCH* | 98.99% | 1.01% | 0.00% | 0.68% |
| *SA* | 92.93% | 7.07% | 0.00% | 3.79% |
| *SAP* | 93.47% | 6.53% | 0.00% | 4.48% |
| **Percentage** | 92.30% | 7.60% | 0.09% | 100.00% |



# ATODIAD 3: CYTUNDEB CARTREF YSGOL

Llanrhaeadr Ym Mochnant

Enw'r plentyn: ________________________ CYTUNDEB CARTREF YSGOL

| CYTUNDEB YR YSGOL | CYTUNDEB RHIENI | CYTUNDEB DISGYBL |
| --- | --- | --- |
| • Ofalu am ddiogelwch a hapusrwydd eich plentyn;<br>• Annog eich plentyn i wneud ei (g)orau bob amser ym mhob agwedd o fywyd yr ysgol;<br>• Annog eich plentyn i ofalu am ei amgylchedd ac i fod yn ystyriol o eraill;<br>• Ddarparu cwricwlwm cytbwys ar gyfer anghenion pob unigolyn;<br>• Roi gwybodaeth i rieni am faterion cyffredinol yr ysgol;<br>• Gyflwyno adroddiad ysgrifenedig blynyddol am bob plentyn a threfnu i rieni gyfarfod athrawon eu plant yn rheolaidd;<br>• Rhoi cyfle i chi gyfrannu i fywyd yr ysgol; | Ceisiaf / ceisiwn<br>• Sicrhau bod fy/ein plentyn yn mynychu'r ysgol yn gyson, yn brydlon (rhwng 8.45 a 8.55yb) a chyda'r cyfarpar angenrheidiol ar gyfer ei (g)waith ysgol;<br>• Roi eglurhad i'r ysgol erbyn 9.15yb am unrhyw absenoldeb;<br>• Hysbysu'r ysgol os bydd unrhyw broblem a allai effeithio ar waith ysgol neu ymddygiad fy/ein plentyn yn bersonol, drwy e-bost swyddfa, neges breifat Facebook neu ffôn;<br>• Gefnogi gyda holl agweddau gwaith cartref;<br>• Fynychu nosweithiau rhieni a phob cyfle i drafod datblygiad fy/ ein plentyn;<br>• Gefnogi polisïau'r ysgol a chanllawiau ymddygiad;<br>• Gefnogi bywyd a diwylliant yr ysgol ac annog fy/ein plentyn i ymfalchïo yn ei d(dd)wyieithrwydd;<br>• Labelu dillad yn glir.<br>• Sicrhau bod fy/ein plentyn yn gwisgo'n addas; | Ceisiaf wneud fy ngorau i<br>• Ddod i'r ysgol bob dydd yn brydlon;<br>• Ddod a phopeth fyddaf ei angen at waith y dydd a gofalu amdanynt;<br>• Wneud fy ngorau gyda fy ngwaith ysgol a gwaith cartref;<br>• Helpu eraill a bod yn gwrtais;<br>• Ofalu am yr ysgol a'i hamgylchfyd;<br>• Barchu fy nghyd-ddisgyblion ac oedolion;<br>• Gadw at reolau'r ysgol;<br>• Wisgo'n daclus;<br>• Wisgo fy ngwisg ysgol ac esgidiau addas. |
| Arwyddwyd:________________________<br>Dyddiad:________________________ | Arwyddwyd: ________________________<br>Dyddiad:________________________ | Arwyddwyd: ________________________<br>Dyddiad: ________________________ |

Llanrhaeadr Ym Mochnant

Roedd y wybodaeth yma yn gywir pan ysgrifennwyd (Hydref 2023).